Dim mwy o brofion
Asesiadau ar-lein personol i ddisgyblion.

Mwy o arian WULF
Cais llwyddiannus am arian hyfforddiant.

Lles a baich gwaith
Gweinidog addysg Cymru'n cydnabod y cysylltiad.

addysgu yng nghymru

Rhifyn 61
Tymor y Gwanwyn 2019

Llywio dyfodol addysg

CYNHALIWYD cynhadledd creu polisi gyntaf erioed Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Cymru yng Ngwesty'r Celtic Manor.

Daeth swyddogion a chynrychiolwyr o'r 24 cangen a rhanbarth yng Nghymru i'r digwyddiad deuddydd, lle trafodwyd 23 o gynigion o fewn saith adran wahanol ar faterion pwysig fel baich gwaith, y cwricwlwm newydd, datganoli cyflogau ac amodau, a chyllid.

Kiri Tunks, cyd-lywydd cenedlaethol yr NEU, oedd yn cadeirio'r gynhadledd. Ymhlith y siaradwyr gwadd roedd Kevin Courtney, cyd-ysgrifennydd cyffredinol yr NEU, a Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg.

Meddai Stuart Williams, swyddog polisi NEU Cymru: "Roedd hon yn gynhadledd hanesyddol. Gan fod gennym bellach system addysg sydd wedi'i datganoli'n llawn, mae'n hollbwysig bod ein haelodau yma yng Nghymru yn penderfynu pa faterion y maent am i Lywodraeth Cymru, a'r Gweinidog Addysg yn enwedig, roi sylw iddynt.

Rhai o staff NEU Cymru a wnaeth y gynhadledd yn llwyddiant PHOTOS by Carmen Valino

"Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'r Llywodraeth er mwyn i'r afael â'r materion hyn."

■ Bydd y gynhadledd creu polisi yn ddigwyddiad blynyddol bellach, gyda'r gynhadledd nesaf i'w chynnal fis Tachwedd.

Ymhlith y siaradwyr, o'r chwith: Kiri Tunks, cyd-lywydd cenedlaethol yr NEU, a Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg

Newyddion

Y Gweinidog o blaid dysgu gydol oes

MAE NEU Cymru wedi croesawu ymrwymiad Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, i ddysgu gydol oes.

Dywedodd David Evans, Ysgrifennydd NEU Cymru: "Mae'r gallu i fanteisio ar ddysgu gydol oes yn hynod o bwysig i Gymru. Braf oedd clywed bod rhan o Gytundeb Blaengar y Gweinidog Addysg gyda'r Prif Weinidog newydd yn cynnwys ymrwymiad i edrych ar hawl pobl i ddysgu gydol oes.

"Os ydym o ddifrif am gyflawni nod y cwricwlwm newydd, sef bod ein plant a'n pobl ifanc yn 'ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes', yna mae'n hollbwysig bod pawb yng Nghymru yn gallu manteisio ar ddysgu gydol oes.

"Bydd ein haelodau yn y maes addysg bellach a dysgu gydol oes yn awyddus i weithio gyda'r Gweinidog Addysg, a'i helpu i greu dyfodol lle mae modd i unigolion ddychwelyd i'r byd addysg drwy gydol eu bywydau.

"Mae dysgu yn y maes oedolion a chymunedau yn enwedig wedi wynebau heriau o ran cyllid, a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain er mwyn cyflawni'r nod."

Cyllid WULF yn golygu mwy o hyfforddiant i aelodau

MAE NEU Cymru unwaith eto wedi bod yn llwyddiannus wrth gael gafael ar arian o Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF).

Mae'r undeb yn awyddus i barhau i roi hyfforddiant, gan ganolbwyntio ar ein pedair blaenoriaeth, sef:

- sgiliau hanfodol;
- dilyniant a datblygiad gyrfa;
- iechyd a lles;
- dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd Beth Roberts, a benodwyd yn gydlynydd i'r prosiect yn 2016, yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth ddysgu NEU Cymru.

Meddai Stuart Williams, swyddog polisi NEU Cymru, a fu'n gyfrifol am y cais: "Mae hyn yn golygu y gallwn barhau i sicrhau bod aelodau'r NEU yn cael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt ac y maent yn ei haeddu dros y tair blynedd nesaf.

"Gyda chymorth y cyllid hwn, gall NEU Cymru barhau i roi cyfleoedd dysgu gydol oes hanfodol i'w aelodau."

Dyddiadau dysgu i'ch dyddiadur

MAE dysgu yn ganolog i NEU Cymru, ac mae'r undeb yn ymfalchïo yn yr hyfforddiant rydym yn ei roi i weithwyr addysg proffesiynol, swyddogion lleol a chynrychiolwyr y gweithle.

HYFFORDDIANT I GYNRYCHIOLWYR

Mae cyrsiau hyfforddiant un-diwrnod a thri-diwrnod yr Undeb i bob cynrychiolydd gweithle– yn newydd a hen – wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae'r rhain yn rhoi'r adnoddau a'r hyder ichi wneud gwir wahaniaeth i fywydau aelodau.

Mae cyrsiau sylfaen a chyrsiau uwch i gynrychiolwyr ar gael bellach ar ffurf cwrs tri-diwrnod llawn arferol, lle bydd y cynrychiolwyr yn bresennol am dri diwrnod mewn un bloc, neu fe allwch ddewis dilyn y cwrs mewn modiwlau, a threulio'r tri diwrnod ar wahân dros gyfnod o amser.

Cyrsiau sylfaen
6-8 Mawrth – cwrs tri diwrnod – Gwesty Dewi Sant, Caerdydd
8 Mawrth – cwrs mewn modiwlau, diwrnod 1 – Gwynedd (lleoliad i'w gadarnhau)
15 Mawrth – cwrs mewn modiwlau, diwrnod 2 – Gwynedd (lleoliad i'w gadarnhau)
22 Mawrth – cwrs mewn modiwlau, diwrnod 3 – Gwynedd (lleoliad i'w gadarnhau)
15 Mawrth – cwrs mewn modiwlau, diwrnod 1 – Future Inn, Caerdydd
14 Mehefin – cwrs mewn modiwlau, diwrnod 2 – Future Inn, Caerdydd
13 Medi– cwrs mewn modiwlau, diwrnod 3 – Future Inn, Caerdydd

Cyrsiau uwch
19-21 Mehefin – cwrs tri diwrnod – Village Hotel, Caerdydd

Cyfraith cyflogaeth
4 Mawrth – Conwy (lleoliad i'w gadarnhau)
10 Mai – Gwesty'r Bear, y Bont-faen.

Baich gwaith a lles
12 Gorffennaf – Future Inn, Caerdydd.
26 Gorffennaf – Sir y Fflint (lleoliad i'w gadarnhau)

Os oes diddordeb gennych mewn bod yn gynrychiolydd ysgol a mynd ar un o'r cyrsiau anfonwch e-bost at **lisa.williams@neu.org.uk** yn swyddfa NEU Cymru. Cofiwch fod hawl cyfreithiol gan gynrychiolwyr i gael yr hyfforddiant hwn. Bydd yr NEU yn cefnogi unrhyw gynrychiolydd sy'n wynebu anawsterau wrth geisio cael amser i ffwrdd o'r gwaith i fod yn bresennol.

HYFFORDDIANT I AELODAU

Gweithdai StoryStarter LEGO ac animeiddio
6 Mawrth – Canolfan Addysg Eden, Aberbîg
Seminar ar y fframwaith cymhwysedd digidol
8 Mawrth – arddangos apiau ac adnoddau ar y we – PCYDDS Caerfyrddin
Sesiwn flasu ar ymwybyddiaeth ofalgar
13 Mawrth – Ysgol Maesydre, Y Trallwng
Adfywio cardio-pwlmonaidd
15 Mawrth – cwrs tair awr – Future Inn, Caerdydd

Dyma'r cyrsiau olaf sydd ar gael drwy brosiect presennol WULF, sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

Bydd y cyrsiau sy'n cael eu trefnu drwy brosiect newydd WULF (gweler y stori lawn am WULF ar y chwith), sy'n dechrau ar 1 Ebrill, yn cael eu hysbysebu maes o law.

Os hoffech chi fynd ar unrhyw un o'r cyrsiau uchod, anfonwch e-bost at **beth.roberts@neu.org.uk**

Cadwch olwg ar eich e-bost i weld gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddiant diweddaraf. Hoffwch ni ar Facebook yn facebook.com/neucymrutraining, dilynwch ni ar Twitter drwy @neucymrutrain ac ewch i neu.org.uk/learning-and-events

Llygredd aer 'anghyfreithlon a niweidiol'

FEL problem amgylcheddol yr ystyrir llygredd aer fel arfer, ond mae bellach yn achosi argyfwng ym maes iechyd y cyhoedd.

Mae pobl mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru yn anadlu lefelau o lygredd aer sy'n anghyfreithlon ac yn niweidiol i'w hiechyd.

Mae Sefydliad Ysgyfaint Prydain wedi bod yn canolbwyntio ar blant, gan mai nhw yw un o'r grwpiau sy'n wynebu'r risg mwyaf yn sgil llygredd aer. Mae'n bosibl bod llygredd aer yn achosi i blant golli'r ysgol oherwydd salwch, a gall arafu twf yr ysgyfaint. Gall hefyd gynyddu'r risg o gael asthma a phroblemau iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae'r sefydliad wedi creu canllawiau i ysgolion, ac mae'n galw ar lywodraethau i gymryd camau i lanhau'r aer a anadlwn.

Mae'r canllawiau i'w gweld ar neu.org.uk/air-pollution

I weld sut y gallwch chi helpu, cefnogwch yr ymgyrch ar Twitter @BLFWales neu ewch i blf.org.uk/take-action/campaign/clean-air



Air pollution guidance for school staff

Why do we need this guidance?

Levels of air pollution across the UK are at unsafe and illegal levels. Every year in the UK, it's estimated that the equivalent of 40,000 early deaths can be linked to breathing polluted air. Air pollution can stunt the growth of babies' and children's lungs. It can put them at risk from long-term lung damage, both at school and as they travel to school.

We've produced this guidance so school leaders, school staff, governing bodies, local authorities and academy trusts can work together to protect pupils and meet relevant health and safety legislation.

How does air pollution affect children?

Children are extremely vulnerable as they tend to breathe faster than adults, and their lungs are still growing.

Air pollution is hugely damaging for all our health. From conception throughout our lives, being exposed to air pollution can increase everyone's risk of getting lung cancer and cardiovascular disease.

Mynd i'r afael ag effeithiau baich gwaith ar les pobl

MAE NEU Cymru wedi croesawu datganiad y Gweinidog Addysg bod lles staff yr un mor bwysig â lles dysgwyr.

Meddai David Evans, ysgrifennydd NEU Cymru: "Mae lles dysgwyr a gweithwyr addysg proffesiynol yn hynod o bwysig i addysg yng Nghymru. Mae'r Gweinidog wedi cydnabod hyn, ac edrychwn ymlaen at weld Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r addewidion hyn ac yn gwneud ysgolion yn llefydd hapus i weithio a dysgu ynddynt.

"Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn disgwyl llawer iawn gan weithwyr addysg proffesiynol, yn enwedig o ran baich gwaith, a gall hyn gael effaith maes o law ar les pobl.

"Mae newidiadau mawr ar y gweill yn sgil y cwricwlwm newydd, cyfraith newydd ar anghenion dysgu ychwanegol, newidiadau i asesiadau a nifer o ddisgwyliadau eraill, a hynny tra bo cyllidebau'n dynn.

"Gobeithio, felly, y bydd y Gweinidog yn cyflawni ei nod, ac y bydd yn rhoi sylw gwirioneddol i faich gwaith gweithwyr addysg proffesiynol."

Yma i helpu

FEL yr undeb addysg mwyaf, gall NEU Cymru roi gwasanaeth heb ei ail i'w aelodau. Mae ein tîm proffesiynol yma i ddefnyddio'u harbenigedd er mwyn helpu ein rhwydwaith o gynrychiolwyr gweithle ac ysgrifenyddion rhanbarthau a changhennau.

Os oes gennych chi broblem yn y gwaith neu i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau i aelodau, cysylltwch â'r canlynol:

- cynrychiolydd eich gweithle;
- ysgrifennydd eich cangen;
- AdviceLine;
- Swyddfa NEU Cymru.

NEU Cymru

Ty Sinnott, 18 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd CF24 5PJ

Ffôn: 029 2049 1818

E-bost: cymru.wales@neu.org.uk

Ysgrifennydd Cymru: David Evans

Uwch Swyddogion Cymru: Gareth Lloyd, Debbie Scott

Uwch Swyddog Polisi Cymru: Mary van den Heuvel

Trefnydd y Gogledd: Cai Jones

Trefnydd y De: Robert Goddard

Cyfreithiwr Cymru: Angharad Booker

Aelodau Gweithredol: Neil Foden, Mairead Canavan, Lesley Tipping

Prif Swyddfa

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, Hamilton House, Mabledon Place, Llundain WC1H 9BD

Ffôn: 020 7388 6191

Gwefan: neu.org.uk

Cyd-lywyddion: Kim Knappett a Kiri Tunks

Cyd-ysgrifenyddion Cyffredinol: Mary Bousted a Kevin Courtney

Cynrychiolwyr Ardal a Changen yn mwynhau ein Cynhadledd NEU Cymru gyntaf

PHOTO by Carmen Valino

Newidiadau ar y gweill i 'asesu ar-lein' yn hytrach na phrofi

MAE'r undeb wedi croesawu cynllun y Gweinidog Addysg i gyflwyno Asesiadau Personol yn lle'r profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

Gwrthwynebodd NEU Cymru'r penderfyniad i gyflwyno profion cenedlaethol yn 2012, ac mae wedi lleisio pryderon yn gyson dros y rhesymeg y tu ôl iddynt.

Gobeithion am lai o farcio i athrawon

Bydd yr Asesiadau Personol yn cael eu cynnal ar-lein, ac maent yn gallu addasu i lefel dealltwriaeth y plentyn.

Bydd hyn yn hollbwysig wrth i Lywodraeth Cymru gyflawni Cenhadaeth ein Cenedl a symud tuag at asesu dysgu, yn hytrach na phrofi.

Meddai David Evans, ysgrifennydd NEU Cymru: "Dylai dulliau profi sy'n addasu ar-lein ddisodli asesiadau ar bapur, a gobeithiwn y bydd hyn yn golygu llai o faich gwaith i athrawon wrth orfod marcio'r asesiadau.

"Serch hynny, mae'n hollbwysig bod digon o gyllid a hyfforddiant i ysgolion yn cyd-fynd â hyn, a rhaid cydnabod y gall pob asesiad gymryd mwy o amser gan y bydd pob plentyn yn gwneud y rhain yn unigol.

"Bydd angen canllawiau clir hefyd ynghylch sut y caiff yr asesiadau hyn eu defnyddio. O'n safbwynt ni, eu diben yw helpu'r athro yn yr ystafell ddosbarth a gweithwyr addysg proffesiynol yn yr ysgol i ateb anghenion dysgwyr.

"Ni ddylent gael eu casglu a'u defnyddio i roi 'gradd' i'r ysgol, gan ein bod wedi gweld yr effaith negyddol y gall hyn ei gael ar ddisgyblion a gweithwyr proffesiynol ill dau."